

Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon (CRhA) a Thrwyddedu: pwysigrwydd cymryd y camau cywir

Dros y dair blynedd ddiwethaf, mae deddfwriaeth newydd ar gyfer trwyddedu a gamblo wedi arwain at newidiadau sylweddol i'r trwyddedau y mae'n rhaid i CRhAau eu sicrhau er mwyn cynnal digwyddiad neu raffl. Os na fydd gan gymdeithas y trwyddedau cywir, gallai hyn arwain at broblemau ar gyfer y CRhA. Os na fydd y drwydded briodol yn cael ei sicrhau ar gyfer digwyddiad sy'n cynnwys adloniant wedi'i reoleiddio, cyflenwi alcohol a/neu luniaeth gyda'r hwyr (fel disgos neu ffeiriau haf), gallai hyn arwain at ddirwy o hyd at £20,000 neu chwe mis o garchar.

Mae National Confederation of Parent Teacher Associations (NCPTA), elusen genedlaethol a sefydliad aelodaeth sy'n darparu cymorth ar gyfer CRhAau a grwpiau ysgol a chartref eraill ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn cydweithio'n

agos gyda'r awdurdodau rheoleiddio perthnasol er mwyn deall y newidiadau a fydd yn digwydd maes o law ac er mwyn ceisio arweiniad penodol ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar weithgareddau CRhAau. Bydd bod yn aelod o NCPTA yn sicrhau bod eich CRhA yn ymwybodol o newidiadau perthnasol i ofynion trwyddedu.

Mae'r ffi ymaelodi ar gyfer NCPTA yn gallu bod mor isel â £60 y flwyddyn ac mae'n cynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n werth £10 miliwn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Nicole James, Cynghorydd NCPTA yng Nghymru ar **01792 362 499** neu nicole.james@ncpta.org.uk neu trowch at www.ncpta.org.uk.

Nicole James
Cynghorydd NCPTA yng Nghymru

Sesiynau Hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr – Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf

Dylai pob llywodraethwr fod wedi cael eu Rhaglen Hyfforddiant Llywodraethwyr ar gyfer Tymor y Gwanwyn. Isod, nodir manylion yr hyfforddiant sy'n weddill yn ystod Tymor y Gwanwyn.

Yn ogystal, nodir manylion am gwrs hyfforddi a gynhelir yn ystod Tymor yr Haf. Ychwanegir cyrsiau pellach cyn bo hir ac fel arfer, byddwn yn dosbarthu Rhaglen Hyfforddiant Llywodraethwyr dymhorol i bob llywodraethwr yn gynnar yn ystod Tymor yr Haf.

Os hoffech archebu lle ar unrhyw rai o'r sesiynau hyfforddi, a fydddech gystal â chysylltu â'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr ar **01446 709106/8** neu anfon e-bost at governors@valeofglamorgan.gov.uk

Jeremy Morgan
Uned Cymorth i Lywodraethwyr

Dyddiad	Cwrs	Amser	Lleoliad
Nos Fawrth 24 Mawrth	Hyfforddiant ar gyfer clerod cyrff llywodraethu	5.00-6.30pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Nos Fercher 18 Mawrth	Rheoli Gwaharddiadau	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Nos Fercher 6 Mai	Ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Nos Fawrth 19 Mai	Iechyd a Diogelwch	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri
Nos Fercher 24 Mehefin	Y Cyfnod Sylfaen	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, Y Barri

Mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg,
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House, Kendrick Road, Y Barry CF62 8UF

Manylion cyswllt:

John Sparks
Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Jeremy Morgan
Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709108 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House
Kendrick Road, Barry CF63 4RU

Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Newsletter



Nodyn gan y Cadeirydd

Ar eich rhan chi, rydw i wedi bod yn mynychu cyfarfodydd gyda Chyngor Bro Morgannwg, Penaethiaid a chynrychiolwyr Undebau ynghylch gweithredu deddfwriaeth newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y ddeddfwriaeth hon yw *Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007*, sy'n golygu bod Cytundebau Partneriaeth ysgrifenedig ffurfiol yn angenrheidiol rhwng pob ysgol a'u Hawdurdodau Addysg Lleol o fis Medi 2009.

Gan ddyfynnu o'r ddogfen arweiniad:

...nid yw'r bartneriaeth rhwng AALLau ac ysgolion bob amser yn mynd rhagddi yn ddiffwdan. Weithiau, ceir ansicrwydd ynghylch yr hyn y dylai AALLau ei ddarparu ar gyfer eu hysgolion a'r hyn y disgwylir i ysgolion ei gynnig. Gall diffyg dealltwriaeth neu eglurder ynghylch cyfrifoldebau perthnasol AALLau arwain at anhawster, ac fe allai

danseilio a thynnu sylw oddi ar yr hyn a gyflawnir gan ysgolion.

Y syniad yw nodi'r hyn y gall ysgolion ei ddisgwyl gan yr Awdurdod, ond hefyd, yr hyn y disgwylir i ysgolion ei gyflawni. Mae'r ddogfen ddrafft yr ydym wedi'i gweld hyd yn hyn yn edrych yn ddefnyddiol iawn gan ei bod yn nodi'n eglur ble y gall ysgolion chwilio am gyngor a help. Mae hon yn debygol o fod yn ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol ar gyfer ysgolion.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl rai a wnaeth sicrhau bod y Gynhadledd Flynyddol i Lywodraethwyr, a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, yn gymaint o lwyddiant. Mae hon yn benllanw cryn dipyn o waith caled gan yr Uned Cymorth i Lywodraethwyr, ac mae hyn yn cael ei werthfawrogi yn fawr.

Martin Price

Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri

Penaethiaid Gwasanaeth newydd yn y Gwasanaeth Addysg

Penodwyd Penaethiaid Gwasanaeth newydd yng Ngwasanaeth Addysg Cyngor Bro Morgannwg. Ar 2 Mawrth, cychwynnodd Lynette Jones, Pennaeth Cyflawniad a Paula Ham, Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformio ar eu gwaith. Daw Lynette o'r Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion (ESIS) ac mae ganddi gyfoeth o brofiad cyfredol ym maes effeithiolrwydd ysgolion, yn ogystal â'i phrofiad fel Pennaeth. Mae Paula yn ymuno â ni o Gyngor

Sir Fynwy, lle'r oedd yn gyfrifol am gyllid, gwasanaethau cymorth ar gyfer ysgolion a'r rhaglen gyfalaf. Rydym yn falch ein bod wedi gallu penodi ymgeiswyr o'r safon hon. Adolygwyd swydd y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac fe'i hysbysebwyd eto gan roi mwy o bwyslais ar y rôl addysg strategol. Disgwylir penodi rhywun ym mis Mawrth.

Jeremy Morgan

Uned Cymorth i Lywodraethwyr

Rhifyn 16 Tymor Hydref 2009

Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:

- Ffurfiwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig ynghyd â 2 gynrychiolydd etholedig sy'n llywodraethwyr sy'n rhieni
- Sefydlwyd VSGA i:
- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau adnoddau digonol i ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion a rheoli a darparu adnoddau i ysgolion, i awdurdodau a sefydliadau perthnasol



Newyddion gan Lywodraethwyr Cymru

Cyhoeddiadau

Bydd cyfres o ganllawiau i lywodraethwyr ynghylch "Cyrrff Llywodraethu Effeithiol" yn cael eu dosbarthu i Gadeiryddion cyrrff llywodraethu yn ystod y tymor hwn.

Diweddarwyd yr adran ynghylch polisiâu a dogfennau statudol y mae'n rhaid i'r corff llywodraethu eu pennu, eu mabwysiadu a'u gweithredu, sy'n ymddangos yn rhan 1 y Llawlyfr i lywodraethwyr ysgolion. Mae llywodraethwyr Cymru wedi anfon y diweddariad i ysgolion yn uniongyrchol mewn neges e-bost. Yn ogystal, mae modd ei lawrlwytho o wefan Llywodraethwyr Cymru.

Mae modd gweld yr holl gyhoeddiadau trwy droi at www.governorswales.org.uk/publications

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol/Cynhadledd Haf – 11 Gorffennaf 2009

Bydd thema'r gynhadledd yn canolbwyntio ar yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a Diogelu Plant mewn Addysg (Rôl Amddiffyn Plant awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu). Bydd sesiynau eraill yn canolbwyntio ar: Gweithdrefnau disgyblu staff a rôl Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru o ran cymhwystra/ymddygiad proffesiynol. Bydd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn traddodi'r brif araith.

Gwefan Llywodraethwyr Cymru

Mae gwefan Llywodraethwyr Cymru www.governorswales.org.uk yn darparu'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf i lywodraethwyr ysgolion. Neilltuwch ychydig funudau (neu fwy!) i bori'r wefan – mae'n cynnwys eitemau newyddion, cwestiynau cyffredin, cyfoeth o gyhoeddiadau – sy'n amrywio o gyhoeddiadau llywodraethwyr Cymru i gylchlythrau cyfarwyddyd ac offerynnau statudol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, cysylltiadau uniongyrchol i raglenni hyfforddiant llywodraethwyr AALI a mwy!

Rydym yn awyddus i ddatblygu ein gwefan, a byddem yn croesawu unrhyw adborth, cysylltiadau defnyddiol, cwestiynau cyffredin ac ati. A fydddech gystal ag anfon eich sylwadau mewn neges e-bost at contact@governorswales.org.uk. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Cyhoeddiadau yn y dyfodol/digwyddiadau i gadw golwg amdanynt yn ystod 2008-2009:

Ffeil Ffeithiau am:

Y Cyfaill Beirniadol – Tymor y Gwanwyn

Addysg 2015

Yn dilyn dyfodiad y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI), nid oes yn rhaid i'r gwasanaeth addysg baratoi "Cynllun Addysg Sengl" mwyach. Fodd bynnag, er mwyn gwneud cyfraniad hyderus ac ystyrlon i CPPI a Chynllun Corfforaethol y Cyngor, mae angen i wasanaeth addysg y Cyngor, gan gynnwys ysgolion a'u cyrrff llywodraethu, fod yn eglur ynghylch gweledigaeth y wasanaeth, ei ymdeimlad o'i ddiben, y gwerthoedd y mae'n dymuno eu hyrwyddo, ei flaenoriaethau a'r canlyniadau y mae'n dymuno eu sicrhau ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro.

Felly, mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu wedi cychwyn ar broses o ymgynghori gyda'i staff a gyda phenaethiaid ynghylch diben (cenhadaeth) y gwasanaeth addysg, y gwerthoedd craidd y dylai'r gwasanaeth eu hamlygu yn ei waith a'r prif flaenoriaethau y dylem geisio'u hyrwyddo. Mae'n amlwg bod angen seilio'r olaf ar ddadansoddiad o'r angen ac mae gwaith wedi cael ei wneud i gasglu'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn arolygon angen a gynhaliwyd yn ddiweddar, ynghyd â'r negeseuon sy'n deillio o gyfoeth y data sydd ar gael i ni.

Bydd y broses ymgynghori a thrafod yn arwain at bapurau drafft a fydd, dros yr wythnosau nesaf, yn datblygu i fod yn set gryno o ddatganiadau a fydd yn amlinellu diben, gwerthoedd a blaenoriaethau ein gwasanaeth, ac a fydd yn ceisio cipio hanfod ein dull gweithredu mewn datganiad gweledigaeth cyffredinol. Er mwyn sicrhau bod ystyr i'r datganiadau hyn mewn cyd-destun gweithredol, bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chysylltu gyda nifer o ganlyniadau y byddem yn dymuno gweld plant a phobl ifanc yn y Fro yn eu cyflawni. Bydd y datganiadau canlyniad hyn yn hollbwysig wrth arwain a hysbysu ein hunedau gwasanaeth amrywiol wrth iddynt gynllunio'u gwaith a chreu eu targedau eu hunain.

Er bod yr ymarfer hwn yn hollbwysig i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau addysg y Cyngor, mae'n hanfodol hefyd bod partneriaid allweddol y gwasanaethau yn cael eu hysbysu o'r broses a'u bod yn gallu cyfrannu ynddi. Bydd trafodaethau gydag aelodau etholedig, penaethiaid, llywodraethwyr a phobl ifanc yn rhan bwysig cyn y cytunir ar ddatganiadau, a chyn y gweithredir yn eu cylch. Y gobaith yw y bydd gan lywodraethwyr ein hysgolion ddiddordeb brwd yn yr ymarfer hwn, gan roi adborth i ni er mwyn dylanwadu ar y broses ymhellach. Mae fersiwn diweddaraf y dogfennau Addysg 2015 amrywiol ar gael ar fewnwyd y Cyngor, ac mae modd eu cael gan Ellie Kingdon hefyd yn swyddfa'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu yn Nhŷ Provincial. ekingdon@valeofglamorgan.gov.uk

Bryan Jeffreys
Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu

Ysgol Feithrin Tregatwg

"mae'n amlwg fel gwerddon werdd mewn ardal adeiledig yn y Barri. Trawsnewidiwyd y safle cyfan yn ddosbarth awyr agored, gydag ystod eang o gynefinoedd bach, ac mae'n cynnig cyfleoedd i'r plant gael profiad o'r tu allan."

Beirniad Gwobrau Bioamrywiaeth Bro Morgannwg 2008



Mae'r ysgol yn feithrinfa annibynnol sy'n cynnig lleoliad i 100 o ddisgyblion. Mae'r ffaith bod gennym ein hamgylchedd blynnyddoedd cynnar ein hunain yn ein galluogi i arbenigo mewn cynnig darpariaeth i blant dros 3 oed.

Fel Ysgol Dechrau'n Gynnar, rydym yn datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen am yr ail flwyddyn. Nod y llywodraethwyr, y staff, y rhieni, y gymuned leol a'r gymuned ehangach yw sicrhau bod ein plant NI yn cael pob cyfle i greu sylfaen cadarn i'w bywydau! Credwn y dylai plant fod wrth wraidd pob penderfyniad.

Mae'r feithrinfa wedi meithrin cysylltiadau da gydag Ysgol Gynradd Tregatwg, yn ogystal â'r Grŵp Chwarae Dechrau'n Deg a gynhelir yn yr Eglwys Fethodistaidd leol; gyda'r Neuadd Gymunedol a Chwaraeon, ein gweledigaeth yw sefydlu safle 'Bro' i bawb.

Mae'r ysgol yn cynnig amrediad o grwpiau rhianta gan gynnwys laith / Rhif a Chwarae, Cadw i Fyny â'r Plant, Ymdopi gyda Phlant a dosbarthiadau Coginio lach i rieni a phlant yn ystod tymor yr hydref. Gall y broses o adael y cartref a symud i'r ysgol feithrin fod yn gam brawychus, ond ein nod ni yw gweithio mewn partneriaeth gyda'n teuluoedd.

Yn anad dim, mae'r holl staff yn sicrhau bod Dysgu yn Hwyl!

Mrs Susan Roberts
Pennaeth Ysgol Feithrin Tregatwg



Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi rhoi cyfarwyddyd i Awdurdodau Addysg Lleol (AALLau) yng Nghymru i ymrwymo i gytundeb partneriaeth gyda chyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod. Bydd angen cytundebau ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion meithrin ac ysgolion arbennig. Rhaid i'r cytundeb nodi sut y bydd AALI a chorff llywodraethu yn cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag ysgol.

Cefndir

Mae nifer o ysgolion ac AALLau yng Nghymru eisoes yn gweithio mewn partneriaeth agos. Mae'r Cod Ymarfer statudol ar Gysylltiadau rhwng AALI/Ysgol a weithredwyd gan y Swyddfa Gymreig ym 1999 wedi helpu i feithrin trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth rhwng AALLau ac ysgolion bob amser yn mynd rhagddi yn esmwyth. Weithiau, ceir ansicrwydd ynghylch yr hyn y dylai AALLau ei ddarparu ar gyfer eu hysgolion a'r hyn y disgwylir i ysgolion ei ddarparu. Gall diffyg dealltwriaeth neu eglurder ynghylch cyfrifoldebau gwahanol AALLau ac ysgolion arwain at anhawster, ac fe allai danseilio a thynnu sylw oddi ar yr hyn a gyflawnir gan ysgolion.

Diben y Cytundebau Partneriaeth yw gwella a chynnal gwaith a wneir mewn partneriaeth rhwng

AALLau ac ysgolion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno hyrwyddo'r dull hwn o weithio ac mae'n thema gref yn agenda 'Creu'r Cysylltiadau' ac Adroddiad Beecham. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y bydd gweithio mewn partneriaeth yn helpu i godi safonau mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â'r canlyniadau i ddysgwyr.

Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion er mwyn cynorthwyo'r broses o wella dysgu a lles plant a phobl ifanc. Nod y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw datblygu trefniadau gwaith ar dair lefel rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn cydweithio er lles dysgwyr ac er lles Cymru. Mae Cytundebau Partneriaeth yn arf er mwyn ymdrechu i sicrhau Ysgolion mwy Effeithiol. Mae'r Cytundebau yn cynnig sail ffurfiol a chyfreithiol a fydd yn nodi rolau AALLau ac ysgolion yn eglur, trwy nodi sut y bydd yr AALI a'r corff llywodraethu mewn ysgol yn cyflawni eu swyddogaethau gwahanol wrth ddelio â materion penodol.

Trwy nodi mewn un dogfen y materion y mae'n rhaid i AALI ac ysgol gytuno arnynt, a thrwy gyfrwng proses y cytundeb ei hun, bydd y Cytundeb Partneriaeth yn cynnig sail gadarn er mwyn cydweithio a hyrwyddo safonau uwch mewn ysgolion.

Bro Morgannwg

Ffurfiwyd gweithgor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gydag Adran 197 Deddf Addysg 2002, sy'n mynnu bod pob AALI yng Nghymru yn ymrwymo i Gytundebau Partneriaeth unigol gyda chyrff llywodraethu.

Mae'r gweithgor yn cynnwys Pennaeth o bob grŵp clwstwr, y Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol o sector yr Eglwys yng Nghymru a'r sector Gatholig, a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro, ynghyd â swyddogion o'r AALI.

Mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith hyd yn hyn yn ystod y tymor hwn, ac mae wedi cytuno ar ffurf ar gyfer y ddogfen. Mae cynnydd yn cael ei sicrhau wrth ddwyn ynghyd y meysydd niferus y mae angen eu cynnwys a chytuno arnynt erbyn tymor yr Hydref. Bydd ysgolion a chyrff llywodraethu yn cael eu hysbysu o'r cynnydd wrth i'r grŵp symud ymlaen i lunio'r Cytundebau.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y Cytundebau Partneriaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr ar **01446 709106/108**.

Jeremy Morgan

Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr

Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd



Brodyr Gregory gyda Chynghorwyr Geoff Cox a Tony Hampton, Mr Gilbert Pennaeth, Mr Hardy Dirprwy Pennaeth, 4 Swyddog Iau Diogelwch ar y Ffyrdd - Sophie Baker, Aisha Ul-Haq, Austin Kay a Shannon Murphy a Swyddogion Cyngor y Fro, Rob Quick, John Rogers a Michelle Fitzpatrick.

Bu'n brofiad da cyfarfod gyda'r llywodraethwyr a wnaeth gymryd rhan yng ngweithdy Cynllunio Teithio Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau fis Tachwedd diwethaf ac o ganlyniad, mae ysgolion a grwpiau cymunedol lleol yn cyflwyno cynlluniau teithio i ni ar hyn o bryd, i'w hystyried ar gyfer grantiau LICC flwyddyn nesaf.

Y gobaith yw y bydd nifer ohonoch wedi cael y cyfle i weld perfformiad Sioe Deithio Brodyr Gregory am Ailgyrchu a Diogelwch ar y Ffyrdd yn ddiweddar, a fu ar daith o gwmpas ysgolion cynradd y Fro. Caiff negeseuon difrifol y ddau fater pwysig hwn eu cyfleu mewn ffordd hwyliog a difyr, ac mae'n cynnwys rhai o'r athrawon hyd yn oed, gan blesio'r plant sy'n ei gwyllo yn fawr. Gyda'r adran Addysg a Rheoli Gwastraff, rydym wedi llwyddo i ariannu'r sioe theatr mewn addysg boblogaidd hon ar y cyd eleni ar gyfer yr holl ysgolion cynradd, gan gynnwys perfformiadau Cymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn ystod dwy rownd o 3 wythnos, y bydd yr ail rownd yn cael ei chynnal ym mis Ebrill a mis Mai.

Diolch i help Lyn Mererid a Leonie Horton, rydym wedi gallu cyflwyno'r Cwis Ysgolion am Ddiogelwch ar y Ffyrdd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ein hysgolion cynradd, ac mae'r rownd derfynol yn agosáu. Pwy fydd yn gallu trechu pencampwyr y llynedd sef Ysgol Gynradd Llansanwyr?

Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm Diogelwch ar y Ffyrdd yn cynnig amrywiaeth o raglenni addysgol ar gyfer ysgolion. A yw'ch ysgol chi yn manteisio'n llawn ar hyn? O Tufty (ydy, mae'n fyw ac iach o hyd!) i Pass Plus Cymru ar gyfer gyrrwyr newydd - mae rhywbeth ar gyfer pob grŵp oedran.

Mae'n portffolio presennol yn cynnwys Y Clwb Traffig i Blant, a gynigir i bob plentyn 3 oed, Tufty, hyfforddiant i gerddwyr Kerbcraft, cynllun Swyddogion Iau Diogelwch ar y Ffyrdd, hyfforddiant beicio a Pass Plus Cymru, yn ogystal â mentrau tymhorol, y bydd nifer ohonynt yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill gan gynnwys Heddlu De Cymru a'r gwasanaeth Tân ac Achub.

Os oes gan eich ysgol chi ddiddordeb mewn unrhyw rai o'r gweithgareddau hyn neu unrhyw gynlluniau eraill sy'n ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd, megis helpu i drefnu Bws Cerdded neu broblemau tagfeydd traffig y tu allan i'r ysgol, cysylltwch â ni yn swyddfa'r Doc ar **01446 704668** neu JAJenkins@valeofglamorgan.gov.uk

Jayne Jenkins

Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

The Maintained Schools (Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2007

Guidance for Local Education Authorities and Schools



Guidance

Welsh Assembly Government Circular No: 016/2008
Date of issue: 30 June 2008

Cynhadledd i Lywodraethwyr 2009 VSGA/GSU



Richard Gerver (Cynghorydd Addysg)

Yn ddiweddar, cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol VSGA/GSU ar gyfer Llywodraethwyr yng Ngwesty Vale of Glamorgan ar ddydd Sadwrn 7 Mawrth. Roedd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro (VSGA) a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr (GSU) yn hynod o falch gyda'r niferoedd uwch a fynychodd eleni o'u cymharu â'r niferoedd a fynychodd y llynedd, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus llywodraethwyr ym Mro Morgannwg. Roedd yr adborth a gafwyd gan lywodraethwyr, ar lafar ac ar bapur, yn amlygu llwyddiant y Gynhadledd.

Teitl Cynhadledd 2009 oedd 'Cyfle, Newid a Herio Cyfle cyfartal' gyda'r diben o gynorthwyo llywodraethwyr i wella'u heffeithiolrwydd ym maes arweinyddiaeth ymhellach, trwy ddeall yn well y ffordd orau o: ystyried sialens fel cyfle i newid;

neilltuo amser i newid a;

chymryd risgiau gofalus er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol.

Ar ôl cyraedd, cynigiwyd coffi cynnar i'r llywodraethwyr a chafwyd gair o groeso ac anerchiad agoriadol gan Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg, Cyng Gordon Kemp, sy'n aelod o Bwyllgor Rheoli Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro hefyd.

Pennwyd ffocws y Gynhadledd gan Athro David Hawker



Bryan Jeffreys (Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu)

(Cyfarwyddwr yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)), a bu'n trafod 'Sialensiau a Chyfle ar gyfer Addysg yng Nghymru'.

Bu Athro Hawker yn ystyried yr angen i gryfhau trefniadau cydweithio effeithiol ar draws ffiniau proffesiynol, er mwyn caniatáu i bawb sy'n ymwneud â gwasanaethau i blant i ganlyn agenda cyffredin trwy gyfrwng y Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Aeth ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd addysg y blynyddoedd cynnar, gan nodi ei fod yn teimlo y byddai menter Dechrau'n Deg a chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn helpu i sicrhau bod plant yn cael y cychwyn gorau i'w bywydau. Bu'n sôn am bwysigrwydd addysgu sgiliau darllen a'r angen i athrawon barhau i ganolbwyntio ar y maes hwn wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen dros y blynyddoedd i ddod.

Atgoffwyd y Gynhadledd gan Athro Hawker o'r elfennau allweddol sy'n hanfodol er mwyn creu a chynnal ysgolion effeithiol: ffocws ar addysgeg, datblygu'r gweithlu ac arweinyddiaeth gadarn. Yna, aeth ati i bwysleisio sgiliau sy'n gweithio i Gymru a'r mentrau a weithredir e.e. Llwybrau Dysgu 14-19 a Bagloriaeth Cymru, a fydd yn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol er mwyn ymgysylltu yn llawn mewn cymdeithas ac yn y gweithle yng Nghymru.

Terfynodd Athro Hawker ei anerchiad trwy drafod yr angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried capasiti o fewn y system addysg er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir yn cynnig y lefel orau o ran gwerth am arian.

Yna, aeth Dr Martin Price, Cadeirydd VSGA, ati i gyflwyno Richard Gerver (Addysgwyr a Chynghorydd ar gyfer DCSF, QCA a'r Llywodraeth) a roddodd gyflwyniad bywiog ac arbennig o'r enw 'Arwain i'r Anghyfarwydd'.

Cawsom ein herio gan Richard i ystyried ein diben moesol mewn ysgolion, gan holi a yw hyn yn ysgogi ein gweledigaeth mewn gwirionedd. A dym yn paratoi plant a phobl ifanc mewn ffordd effeithiol ar gyfer y dyfodol? Mae angen i ysgolion sicrhau bod disgyblion yn meddu ar yr hyder i fynegi eu hanghenion a'u cryfderau. Roedd o'r



Athro David Hawker (Cyfarwyddwr APADGOS)

farn y dylai ysgolion ailfodelu'r hyn a gyflwynir er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r hyn y mae disgyblion ei angen mewn ffordd fwy priodol, yn hytrach na'r hyn y mae athrawon yn dymuno'i addysgu. Roedd dysgu heddiw ar gyfer bywyd yfory yn neges allweddol, ynghyd â phwyslais ar lywodraethwyr ac athrawon yn sicrhau bod dysgu yn bwysig.

Roedd cyflwyniad Richard yn adfywiol ac yn apelgar, gan roi pwyslais eglur ar roi plant wrth wraidd popeth a wnawn.

Dros goffi, bu'r llywodraethwyr yn manteisio ar y cyfle i rwydweithio gyda siaradwyr, swyddogion o'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion, yn ogystal â chyd lywodraethwyr cyn ffurfio grwpiau ar gyfer dau weithdy.

Gwelwyd un gweithdy, a arweiniwyd gan Andy Henderson (Pennaeth Ysgol Hen Felin yn Rhondda Cynon Taf) yn cynnig persbectif craff Pennaeth o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn pennu'r weledigaeth ar gyfer gweithredu effeithiolrwydd ysgolion wedi'i seilio ar ddiwygio ar dair lefel. Ystyr diwygio ar dair lefel yw sicrhau bod y gymuned addysg gyfan (ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad) yn cydweithio a bod eu gwaith yn cydreddeg. Mae'r Fframwaith yn disgrifio'r nodweddion allweddol sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu arfer da presennol a gwella dysgu a lles plant a phobl ifanc ar draws Cymru, a chyfraniad pob partner tuag at y gwaith o sicrhau hynny. Aeth Andy ymlaen i roi diweddariad am y cynnydd a sicrhawyd o ran gweithredu'r Fframwaith ers y'i lanswyd gan Jane Hutt (Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) yn ystod ein Cynhadledd i Lywodraethwyr y llynedd.

Bu'r gweithdy arall, dan arweiniad Richard Gerver, yn datblygu'r negeseuon a fynegwyd yn ystod ei brif gyflwyniad yn gynharach.

Bu Richard yn sôn am ei brofiadau fel Pennaeth yn Ysgol Gynradd Grange yn Long Eaton, Derby, gan gynnig enghreifftiau o fentrau 'Cwricwlwm Newydd' a gyflwynwyd ganddo er mwyn gwella'r ysgol.

Aethpwyd ati i feithrin perthnasoedd a phartneriaethau gyda'r gymuned leol, ei busnesau a'i sefydliadau er mwyn cynorthwyo 'Prosiect Grangeton'. 'Grangeton' yw tref yr ysgol, sy'n cael ei rhedeg gan y disgyblion ac mae'n cynnwys papur newydd, llyfrgell, sinema, siop fwyd bwyta'n iach, canolfan gyfryngau sy'n cynnwys canolfan deledu a gorsaf radio, caffai iaith ac amgueddfa.

Yn ogystal, mae'r dref yn cynnwys 'Prifysgol Grange', lle y mae'r plant yn cael cyfle i ddewis cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng cyfres o weithdai a gynhelir bob bore dydd Gwener. Bydd y gweithdai yn para am hanner tymor a

byddant yn cael eu hachredu yn erbyn cyfres o sgiliau a gynlluniwyd ymlaen llaw ac sy'n cyfrannu at ddysg y plant. Cynhelir gweithdai gan staff yr ysgol, rhieni a busnesau a sefydliadau lleol. Mae'r gweithdai yn cynnig cyfle i'r plant feithrin portffolio o sgiliau mewn meysydd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt. Bydd pob plentyn yn cadw cofnod o'u gweithdai, a rhoddir tystysgrif iddynt ar ddiwedd pob bloc o weithdai.

Mae'r Brifysgol yn cynnig y cyfle i'r plant ddatblygu diddordebau a meithrin sgiliau mewn nifer o feysydd a fydd yn helpu i nodi talentau unigryw pob plentyn, na fyddent yn cael eu darganfod dan gwricwlwm confensiynol efallai.

Yn dilyn y gweithdai, daeth pawb ynghyd ar gyfer y cyflwyniad olaf. Cafwyd cyflwyniad gan Bryan Jeffreys (Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu) o'r enw 'Addysg 2015'.

Bu Bryan yn sôn am y sialensiau y mae'r gwasanaeth addysg yn eu hwynebu, gan amlygu'r angen i'r gwasanaeth fod yn eglur ynghylch ei weledigaeth, ei



Andy Henderson (Pennaeth Ysgol Hen Felin, RhCT)

ymdeimlad o'i ddiben, y gwerthoedd y mae'n dymuno'u hyrwyddo, ei flaenoriaethau a'r canlyniadau y mae'n dymuno'u sicrhau ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro.

Amlygwyd y canlynol gan Bryan:

- Gweithio mewn Partneriaeth
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc
- Datblygiadau Cwricwlwm ● Adnoddau
- Effeithiolrwydd Ysgol ● Cydweithio ● Diogelu

fel meysydd allweddol y byddai'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar eu symud yn eu blaen trwy ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro. Gellir gweld gwybodaeth bellach am 'Addysg 2015' mewn erthygl arall yn y Cylchlythyr hwn a ysgrifennwyd gan Bryan.

Cynhaliwyd bwffe ar ddiwedd y Gynhadledd a gwelwyd sawl llywodraethwr yn cyfeirio at safon uchel y digwyddiad. Roedd yr holl siaradwyr wedi rhoi cyflwyniadau a gweithdai diddorol ynghylch y materion allweddol, gan helpu i sicrhau bod y bore yn ddigwyddiad blynyddol allweddol yng nghalendr llywodraethwyr yn y Fro. Mawr obeithiwn bod y llywodraethwyr yn teimlo'u bod wedi cael budd o fynychu, eu bod yn meddu ar fwy o ddealltwriaeth o'r pwyntiau a drafodwyd, a'u bod wedi mwynhau'r digwyddiad.

Hoffai GSU ddiolch i'r holl lywodraethwyr a neilltuoedd eu bore dydd Sadwrn er mwyn mynychu'r Gynhadledd ac unwaith eto, mae'n ddiolchgar iddynt am eu cymorth parhaus.

Jeremy Morgan
Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr Uwch